COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD IAU, 19 MEHEFIN 2025 AM 10:00

Presennol

G Chapman – Cadeirydd (Aelod Lleyg – Presennol yn rhithwir)

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | S Easterbrook | M L Hughes | RM Granville |

Presennol yn rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| MJ Williams | S J Griffiths | O Clatworthy | RL Penhale-Thomas |

Aelodau Lleyg – Presennol yn rhithwir

| | | |
|---|---|---|
| D Austin | A Bagley | B Olorunnisola |

Yn bresennol:

P Davies

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd |
| Rachel Keepins | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd |
| Simon Roberts | Uwch Ymchwilydd Twyll |
| David Williams | Archwilio Cymru |
| Andrew Wathan | Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Martin Morgans | Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol |
| Philip O'Brien | Rheolwr Trawsnewid Digidol a Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro |
| Nimi Chandrasena | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogi |

## 218. Ethol Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Etholwyd G Chapman yn Gadeirydd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

## 219. Ethol Is-gadeirydd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Etholwyd A Bagley yn Is-gadeirydd. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

## 220. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod ar 24 Ebrill 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

## 221. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Roedd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau ac ymateb i faterion penodol y tynnwyd sylw atynt yn Atodiad A.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd yr Aelodau nifer o faterion a'u trafod:<br><br>• Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (WPPP). Nododd Aelod ei bod yn galonogol bod y bartneriaeth yn darparu gwerth am arian i'w haelodau ond gofynnodd a fyddai'n bosibl cael matrics, o safbwynt ffioedd a refeniw, fyddai'n dangos ein safle o'i gymharu ag aelodau eraill y consortiwm. Ychwanegodd y Cadeirydd ei fod yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Craffu am edrych i mewn i'r mater hwn ond ei fod o'r farn y dylid profi'r gwasanaeth yn y farchnad, o ystyried bod pedair blynedd ar ddeg ers i hynny ddigwydd ddiwethaf. Dim ond yn dilyn hynny y byddai gan y Cyngor feincnod a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl dod i gasgliad pendant bod y gwasanaeth yn darparu gwerth am arian.<br><br>• Bod angen cael eglurder mewn papur byr i'r Aelodau ar y materion ynghylch gorfodi parcio a'r strategaeth barcio.<br><br>• Bod angen egluro gweithrediadau Harbwr (a'r Marina) Porthcawl (gan gynnwys cyfansoddiad y |

| | |
|---|---|
| | Bwrdd a dosbarthu ei gofnodion) mewn papur byr i'r Aelodau.<br><br>• Y byddai'r Aelodau'n gwerthfawrogi derbyn, waeth beth fo'r adolygiad fflyd parhaus, arwydd o pryd y câi'r argymhellion mewn perthynas â Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith yng Ngherbydau'r Cyngor eu gweithredu'n llawn.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu a gwnaeth sylwadau, fel oedd yn briodol.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor am i dri adroddiad byr gael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf ar 17 Gorffennaf yn egluro statws yr holl argymhellion sy'n weddill, ac yn darparu'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn ystod y drafodaeth, mewn perthynas â'r materion canlynol:<br><br>• Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith yng Ngherbydau'r Cyngor.<br>• Gorfodi Parcio (a Strategaeth).<br>• Harbwr Porthcawl (gan gynnwys gweithrediadau'r Bwrdd). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

## 222. Asesiad Busnes Byw

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am asesiad y Swyddog Adran 151 (a151) (Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid) o'r Cyngor fel 'Busnes Byw' i'r diben o gynhyrchu Datganiad Cyfrifon 2024-25.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r Aelodau'n tafod un neu ddau o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Bod yr alldro cyffredinol ar 31 Mawrth 2025 yn danwariant net. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid y câi adroddiad cynhwysfawr ar Alldro Cyllideb Refeniw 2024-25 ei ystyried gan y Cabinet ar 24 Mehefin 2025 a chan y Cyngor drannoeth.<br><br>• A oedd balansau ysgolion yn rhan o'r ystyriaethau ynghylch y Cyngor fel 'Busnes Byw' i'r diben o |

| | |
|---|---|
| | gynhyrchu Datganiad Cyfrifon 2024-25. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Grŵp – y Prif Gyfrifydd mai felly yr oedd hi.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn canlyniad yr asesiad o statws y Cyngor fel busnes byw i'r diben o baratoi Datganiad Cyfrifon 2024-25. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

**223. 'Ymholiadau Archwilio i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu a Rheoli' gan Archwilio Cymru ar gyfer Archwiliad 2024-25**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi llythyr 'Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli' gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor, oedd yn gofyn nifer o gwestiynau ynghylch trefniadau llywodraethu'r Cyngor i'w cwblhau erbyn 30 Mehefin 2025. Roedd y llythyr ynghlwm yn **Atodiad A** a gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chadarnhau'r atebion a chymeradwyo ei ddychwelyd i Archwilio Cymru.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r Aelodau'n trafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Bod llythyr archwilio gan Archwilio Cymru wedi nodi un argymhelliad yn dilyn cwblhau archwiliad Datganiad Cyfrifon 2023-24. Roedd hyn i ystyried defnyddio System Rheoli Asedau'r Cyngor (Cofrestr Asedau Sefydlog CIPFA) yn llawn yn hytrach na'r taenlenni presennol ar gyfer gwerthuso. Gofynnodd Aelod a ellid rhoi syniad o faint o waith fyddai hyn yn ei olygu a beth fyddai'r amserlen debygol ar gyfer cwblhau'r gwaith i weithredu system rheoli asedau benodol ar gyfer y dyfodol. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Grŵp - y Prif Gyfrifydd mai'r gobaith oedd y byddai'r prosiect yn gwneud cynnydd yn ystod 2025/26, ond na fyddai'n ateb cyflym.<br><br>• Gofynnodd y Cadeirydd am ragor o wybodaeth p'un a oedd y prosiect wedi'i gostio'n llawn yn y gyllideb i ddod ac a oedd arian wedi cael ei neilltuo i'w ariannu. Mewn ymateb, nododd y Dirprwy Bennaeth Cyllid fod rhywfaint o gyllid ar gael fel rhan o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer y Trawsnewid Digidol, ond y byddai angen rhoi ystyriaeth lawn sut i ariannu'r prosiect ar ôl gwneud penderfyniad ynghylch pa system i'w phrynu.<br><br>• Gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth ynglŷn â phrynu cynhwysydd llongau nad oedd wedi |

| | |
|---|---|
| | cyrraedd. Talodd y Cyngor 50% ymlaen llaw. Canfuwyd mai twyll oedd hwn a gwrthodwyd cais am y taliad olaf o 50%. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Grŵp – y Prif Gyfrifydd fod y taliad wedi mynd drwy'r system arferol a bod ymdrechion i gysylltu â'r cwmni i adennill y swm a dalwyd wedi bod yn aflwyddiannus. Nododd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol gwybod pam roedd y Cyngor wedi ceisio prynu cynhwysydd llongau.<br><br>• Gofynnodd Aelod Lleyg a oedd y taliad ymlaen llaw wedi cael ei wneud heb gymeradwyaeth Swyddog adran 151, ac os felly a oedd proses ddisgyblu wedi digwydd am dorri proses neu bolisi. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Grŵp – y Prif Gyfrifydd fod y taliad wedi'i wneud heb gymeradwyaeth. Nododd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid fod angen edrych yn fanwl i mewn i'r mater. Nododd y Cadeirydd, os mai digwyddiad untro ydoedd, yna felly bydded, ond bod Archwilio Mewnol ar gael i edrych yn fanylach os oedd yna broblem fwy cyffredinol.<br><br>• Nododd Aelod, yn gyffredinol, nad oedd yn bosibl i swyddog unigol weithredu ar ei ben ei hun ond gofynnodd sut yr oedd Polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor megis y Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo, y Polisi Gwyngalchu Arian, y Polisi Gwrth-osgoi Treth, a'r Strategaeth a'r Fframwaith Twyll yn cael eu lledaenu. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Grŵp – y Prif Gyfrifydd fod modiwlau e-ddysgu ar dwyll a bod disgwyliad cyffredinol y byddai staff perthnasol yn adnewyddu eu gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor yn rheolaidd. Dilynodd y Cadeirydd hyn drwy ofyn am anfon e-bost at yr holl staff i ofyn iddynt ddiweddaru eu gwybodaeth am dwyll a bod canlyniadau yn dilyn methiant i ddilyn prosesau a gweithdrefnau. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid fod e-bost wedi cael ei anfon yn ddiweddar ond y byddai'r swyddogion yn gweithredu'n unol â chais y Pwyllgor.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Bod y Cyngor:<br><br>• Wedi cytuno ar yr atebion i'r llythyr 'Ymholiadau archwilio i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli' gan Archwilio Cymru fel y'i hatodwyd yn **Atodiad A**; ac<br><br>• Yn nodi y byddai'r atebion i lythyr ymholiadau Archwilio Cymru yn destun adolygiad a chymeradwyaeth derfynol gan y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro ac y byddent efallai yn cael eu diwygio cyn eu cyflwyno. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

## 224. Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi Barn Flynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol a hysbysu'r Pwyllgor am waith a pherfformiad Archwilio Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd yr Aelodau nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Bod yr adroddiad yn amlinellu nifer o faterion mewn dwy ysgol: Ysgol Gynradd Penybont ac Ysgol Maesteg. Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd y byddai'n briodol gofyn am sicrwydd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc bod y materion yn cael eu trin. Nododd Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS), lle'r oedd barn gyfyngedig, fod proses ar waith oedd yn rhoi cyfle i ddarparwr y gwasanaeth (y Pennaeth, ar yr achlysur hwn) unioni pethau cyn archwiliad dilynol a fyddai, gobeithio, yn cadarnhau canlyniad cadarnhaol, a phe bai yna unrhyw faterion heb eu datrys, yr adroddid yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y rhain maes o law. Dywedodd Aelod arall fod y prosesau archwilio wedi canfod y materion, a bod hyn yn dangos pwysigrwydd a gwerth y gwasanaeth.<br><br>• Nododd Aelod fod y trefniadau partneriaeth newydd ar gyfer y gwasanaeth archwilio rhanbarthol yn ymddangos fel pe baent yn gweithio'n dda er gwaethaf y ffaith fod Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi gadael ond holodd a oedd unrhyw ganlyniadau wedi bod o ran costau cyffredinol. Mewn ymateb, nododd Pennaeth RIAS fod tua 93% o'r costau'n gysylltiedig â staff ac o ran rheoli, lle’r arferai fod Pennaeth y gwasanaeth a dau reolwr archwilio yn delio â phedwar sefydliad, yn awr roedd y Pennaeth ac un rheolwr archwilio yn delio â thri. Ymylol oedd y costau cyffredinol ond adroddid amdanynt wrth y Bwrdd (oedd yn cynnwys y tri swyddog adran 151 perthnasol).<br><br>• Llongyfarchodd Aelod arall y tîm am y gwasanaeth rhagorol yr oeddent yn ei ddarparu i'r tri awdurdod lleol. Mewn ymateb, cynigiodd y Cadeirydd y dylai swyddogion archwilio i weld a oedd gwobrau y gellid enwebu RIAS ar eu cyfer, er mwyn ennill cydnabyddiaeth genedlaethol iddynt. |

| | |
|---|---|
| | • Gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid anfon y dogfennau perthnasol, oedd yn ymwneud â Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith yng Ngherbydau'r Cyngor, Gorfodi/Strategaeth Parcio a Ffurflen Flynyddol Harbwr Porthcawl, at Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau fel y gallai weld beth wnaeth ysgogi camau gweithredu'r Pwyllgor mewn perthynas â'r materion hyn. Mewn ymateb, nododd y Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid y byddai'n cysylltu â RIAS i sicrhau eglurder llwyr ynghylch y gwaith oedd wedi cael ei wneud ac a oedd unrhyw gamau gweithredu heb eu cymryd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd a nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, gan gynnwys Barn Flynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor.<br><br>Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc ddarparu adroddiad ysgrifenedig i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 17 Gorffennaf oedd yn ymateb i'r camau gweithredu a nodwyd yn yr archwiliad mewnol ac a amlinellwyd yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2024/25 mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Penybont ac Ysgol Maesteg. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

**225. Strategaeth Archwilio Fewnol a'r Cynllun Seiliedig ar Risg ar gyfer 2025-26**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi'r Strategaeth Archwilio Fewnol Flynyddol a'r Cynllun Seiliedig ar Risg ar gyfer 2025-26 i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio iddynt gael eu cymeradwyo.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r Aelodau yn trafod rhai materion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Nododd Aelod Lleyg y gallai fod yn ddefnyddiol i'r pwyllgor gael gweld yr archwiliadau uchel eu blaenoriaeth a nifer y diwrnodiau a ddyrannwyd yn eu herbyn. Mewn ymateb, nododd Dirprwy Bennaeth RIAS, er bod yna gynllun manylach y tu ôl i'r hyn oedd yn yr adroddiad, fod pob un a amlinellwyd yn flaenoriaeth uchel ac o'r un pwysigrwydd o ran ei gyflawni yn 2025/26. |

| | |
|---|---|
| | • Gofynnodd Aelod a oedd yr archwiliadau oedd yn weddill o 2024/25 wedi cael eu cario drosodd i 2025/26. Cadarnhaodd Dirprwy Bennaeth RIAS mai felly yr oedd hi, ac wrth ateb cwestiwn dilynol gan Aelod Lleyg eu bod yn cael eu cario drosodd am eu bod yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel. Yn y gorffennol, roedd rhai archwiliadau oedd yn weddill heb gael eu cario drosodd oherwydd nad oeddent yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth uchel mwyach.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Fewnol ddrafft (**Atodiad A**) a'r Cynllun Archwilio Blynyddol Seiliedig ar Risg drafft ar gyfer 2025-26 (**Atodiad B**) |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

**226. Siarter Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol 2025-26**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno'r Siarter Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2025-26 oedd ynghlwm yn **Atodiad A** i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gymeradwyo.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, gofynnodd Aelod sut dderbyniad gafodd y tîm wrth gyfarfod â rheolwyr mewn gwahanol feysydd gwasanaeth ac o ystyried bod gwahanol feysydd gwasanaeth yn mesur eu perfformiad a'u darpariaeth mewn gwahanol ffyrdd, a oedd diffyg cysondeb ar draws y Cyngor. O ganlyniad, tybed a ddylai fod mwy o hyfforddiant ar draws y Cyngor ynghylch y broses archwilio. Mewn ymateb, nododd Pennaeth RIAS ei bod yn anodd ymateb gan eu bod yn archwilio gwahanol feysydd gwasanaeth bob blwyddyn. Eu nod oedd sicrhau bod y broses archwilio yn gyson. Cydnabu fod canfyddiad o archwilio mewnol a allai fod yn negyddol a bod y tîm wedi gweithio'n galed i godi eu proffil yn gadarnhaol, a bod mynychu'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CMB) a chyfarfod â Chyfarwyddwyr yn unigol wedi cyfrannu at yr ymdrech honno.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Fe wnaeth Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2025-26 fel yr oedd ynghlwm yn **Atodiad A** i'r adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

| | |
|---|---|
| | |

## 227. **Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad oedd cyflwyno'r Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w adolygu a rhoi sylwadau arno, cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu’r Aelodau’n trafod rhai materion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Y gallai pob Aelod elwa o ddigwyddiad hyfforddi fyddai’n diweddaru eu gwybodaeth am yr holl feysydd polisi hyn. Mewn ymateb, nodwyd bod sesiwn hyfforddi ar ymwybyddiaeth o dwyll, gwrth-osgoi trethi a gwyngalchu arian wrthi’n cael ei threfnu ar gyfer mis Medi 2025. Câi’r Aelodau Lleyg hefyd eu gwahodd i fynychu’r sesiwn.<br><br>• Nad oedd y paragraff newydd a fewnosodwyd yn dilyn yn rhesymegol yr hyn oedd o’i flaen a bod angen diwygio paragraff 2.3 yn unol â hynny.<br><br>• Y dylai'r ddogfen bolisi amlinellu enghreifftiau o'r hyn a allai ddigwydd i'r rhai oedd yn twyllo'r Cyngor, neu oedd yn llygredig, lle bu camymddygiad ariannol (4.7). Yn yr un modd, byddai'r ddogfen yn elwa o rai enghreifftiau o'r camau posibl, yn gymesur â'r hyn oedd wedi digwydd, y gallai'r Cyngor eu cymryd i adennill unrhyw golledion oedd yn deillio o dwyll.<br><br>• O ran diwylliant y Cyngor (Adran 4) o onestrwydd a dim goddefgarwch i dwyll a llygredd, roedd yn angenrheidiol, trwy hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, sicrhau bod yr holl unigolion, busnesau a sefydliadau oedd yn ceisio gwneud busnes gyda'r Cyngor yn cael eu hystyried drwy 'brism twyll' o ran gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid gwario arian cyhoeddus ai peidio. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn ddilys iawn ac, fel rhan o godi ymwybyddiaeth, y byddai'r holl bolisïau wedi eu diweddaru a'r cysylltiadau rhyngddynt yn cael eu hamlinellu mewn bwletinau staff ac Aelodau.<br><br>• Y dylai pob uwch reolwr orfod mynychu hyfforddiant yn y meysydd polisi hyn. Mewn ymateb, nodwyd bod y Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CMB) yn ystyried pa hyfforddiant ddylai fod yn orfodol, ac y câi'r maes hwn ei gynnwys ar y rhestr o feysydd i'w hystyried. |

| | |
|---|---|
| | • Bod angen egluro a ddylai pob contractwr allanol orfod cydymffurfio â'n holl bolisïau a gweithdrefnau fel rhan o'r telerau ac amodau ar gyfer gwneud busnes gyda'r Cyngor, ynteu na ellid mynnu cydymffurfiaeth ond â'r rheiny sy'n cael eu cefnogi gan ddeddfwriaeth.<br><br>• Bod angen i'r polisi ddatgan yn eglur ei fod yn cynnwys Aelodau Lleyg yn ogystal ag Aelodau Etholedig.<br><br>• Y dylai'r ddogfen gyfeirio at y 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio' ac nid y 'Pwyllgor Archwilio' yn unig (8.2).<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd wedi ei ddiweddaru yn **Atodiad A** a nododd, yn amodol ar y gwelliannau y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor, y câi'r Polisi diwygiedig yn **Atodiad B** ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

228. **Adolygiad o'r Polisi Gwrth-wyngalchu Arian Anti-Money**
229.

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd cyflwyno'r Polisi Gwrth-Wyngalchu Arian wedi ei ddiweddaru i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w adolygu ac i wneud sylwadau arno, cyn i'r Polisi gael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd Aelod y mater ynghylch a fyddai'r polisi hwn yn cael ei ystyried gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol, ochr yn ochr â'r dogfennau polisi eraill a ystyriwyd gan y pwyllgor yn y cyfarfod hwn a'r un olaf ym mis Ebrill, fel rhan o'r rhestr o bynciau ar gyfer hyfforddiant gorfodol. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'n cael ei ystyried ochr yn ochr â'r meysydd polisi eraill ac y gallai hefyd fod yn rhan o seminar yn ymdrin â'r holl feysydd polisi ar gyfer yr holl uwch reolwyr.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor y gwelliannau i'r Polisi Gwrth-Wyngalchu Arian yn **Atodiad A** a nododd y câi'r Polisi |

| | |
|---|---|
| | diwygiedig oedd ynghlwm yn **Atodiad B** ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

## 229. Cwynion a Chanmoliaeth Gorfforaethol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi diweddariad pellach i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y broses bresennol o ymdrin â chwynion ynghyd â chynnig ynglŷn â'r ffordd y caiff pob cwyn a chanmoliaeth gorfforaethol ei monitro, ei chofnodi ac adrodd amdani yn y dyfodol.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, bu'r Aelodau'n trafod nifer o faterion, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Ei bod yn hanfodol bod y ddogfen yn cynnwys dyddiad cwblhau cyffredinol a cherrig milltir ar gyfer y prosiect. Mewn ymateb, nodwyd y câi cynllun y prosiect ei ystyried eto ac y câi dyddiadau rhesymol eu cynnwys. Roedd yn hanfodol, o ystyried cymhlethdod nodi anghenion gwasanaeth o ran cwynion corfforaethol, y rhai mewn addysg a gwasanaethau cymdeithasol, nad oedd rheolwyr yn 'gor-addo ac yn tangyflawni' wrth lunio cynllun prosiect ymarferol.<br><br>• A oedd ystyriaeth wedi cael ei rhoi ar ddechrau'r prosiect i'w ddatblygu mewn rhannau y gellid eu rheoli a'u cyflawni.<br><br>• Roedd hefyd yn angenrheidiol ystyried faint o flaenoriaeth oedd y prosiect o'i gymharu â'r holl alwadau corfforaethol oedd yn cystadlu am adnoddau ac amser yn y Cyngor.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Nododd y Pwyllgor y diweddariad ar y broses gwynion a chanmoliaeth gorfforaethol a'r ateb digidol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

## 230. Blaenraglen Waith 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Flaenraglen Waith wedi ei diweddaru ar gyfer 2025-26.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith wedi ei diweddaru ar gyfer 2025-26, yn amodol ar y gwelliannau canlynol mewn perthynas â'r cyfarfod nesaf ar 17 Gorffennaf 2025:<br><br>• Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc ar y ffordd y mae'r materion a nodwyd gan RIAS mewn dwy ysgol, Ysgol Gynradd Penybont a Maesteg, yn cael eu trin.<br><br>• Tri adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau ar Filltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith yng Ngherbydau'r Cyngor, Gorfodi Parcio (a Strategaeth), a Harbwr Porthcawl (gan gynnwys gweithrediadau'r Bwrdd). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

**231. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 19 Mehefin 2025 |

Er mwyn gweld rhagor o’r drafodaeth a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen yma.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:11.

.

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 19 MEHEFIN 2025**